Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Teitl: **Praesept a Threth y Cyngor 2020/21**

Cyfarfod: **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 31 Ionawr 2020**

Awdur: **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer praesept a threth y cyngor 2020/21.

2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £84,990,106

- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor 4.50% - mae hyn yn gyfystyr â £290.61 y flwyddyn, cynnydd o £12.51 y flwyddyn, neu 24c yr wythnos ar gyfer eiddo band D.
- Dyma gynnydd o 4.89% o'i gymharu â phraesept 2020/21

2.2 Nodi bod £2.358m o arbedion wedi eu nodi ar gyfer 2020/21.

2.3 Nodi bod £2.358m o'r arbedion yn cael eu hail-fuddsoddi i weithgareddau'r rheng flaen.

2.4 Nodi bod 62 Swyddog Heddlu ychwanegol yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth.

2.5 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 4.50% yn 2020/21 a 4.13% yn 2021/22, 3.97% yn 2022/23, 3.81% yn 2023/24 a 3.67% yn 2024/25.
- Bydd grantiau plismona'n aros ar y lefelau presennol yn 2021/21 a thu hwnt.
- Bydd dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2.5% o fis Medi bob blwyddyn.
- Nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, na chafwyd cyhoeddiad am y setliad mewn perthynas ag ariannu'r heddlu. Roedd hyn oherwydd yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019.

2.6 Nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, na chafwyd cyhoeddiad am y setliad mewn perthynas ag ariannu'r heddlu. Roedd hyn oherwydd yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019.

3. Crynodeb o Gyllideb 2020/21

		£m	
Cyllideb 2019/20		**154.264**	
Gofynion chwyddiant		3.960	2.57%
Arbedion a nodir		-2.358	-1.53%
Ailfuddsoddi		2.358	1.53%
Gofynion Cyllideb 2020/21		**158.224**	2.57%
Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2019/20			
Grantiau Llywodraeth (Amcan)		73.234	0.00%
Treth y Cyngor	£290.61		4.50%
Wedi'i luosi â sylfaen drethu	292,454.17		0.37%
Praesept (cyfran cyllid 53.71%)		84.990	4.89%
Cyfanswm y cyllid ar gael		**158.224**	**2.57%**

4. Eitemau Statudol

4.1 Safon y Wybodaeth

4.1.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 5) mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar addasrwydd yr wybodaeth a ddefnyddir fel sail i'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn deillio o weithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Mae'r systemau hyn yn cael eu archwilio'n fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwiliad allanol erioed wedi arwain at adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas i'r diben.

4.1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r cronfa gyffredinol wrth gefn yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu dydd i ddydd yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi cael eu hadolygu, ac mae mwy o fanylion ar gael yn adran 9. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd wrth gefn yn awr yn agosáu at rhan isaf yr ystod sy'n dderbyniol, ac efallai bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn dros gwrs y CATC os bydd angen ariannu gwariant heb ei gynllunio neu ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

5. Cefndir

5.1 Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Cafodd cyllid y Llywodraeth ei ostwng 20.8% o ran arian parod, sydd gyfwerth â gostyngiad o 31.7% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant)

erbyn 2019-20. Yn ychwanegol at hyn, cynyddodd cyfraniadau Pensiwn Gweithwyr Swyddogion Heddlu o 24.2% i 31% yn 2019-20, ac er y darparwyd rhywfaint o arian ychwanegol, gwnaeth hyn gynhyrchu cynnydd net o fwy na £2m o ran costau. Arweiniodd hyn at gynnydd Treth y Cyngor o 7.74% yn 2019-20, o'i gymharu â chynnydd Treth y Cyngor o rhwng 1.91% a 3.98% yn ystod cyfnod 2011-12 i 2018-19.

5.2 Arweiniodd effaith gyffredinol lai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £33.031 miliwn o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 9 mlynedd. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad ariannol o 22.3% yng nghyllideb cyn caledi 2010-11 o £148.035 miliwn. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Toriadau a wnaed	£4.678m	£6.016m	£4.634m	£4.325m	£4.448m	£2.838m	£2.686m	£1.479m	£1.927m

5.3 Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, a oedd newydd ei benodi, ganlyniad Cylch Gwario 2019 (SR2019) y cyfeirir ato weithiau fel yr 'Adolygiad o Wariant'. Nododd yr SR2019 gyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21. Roedd hyn cyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol. Gwnaeth Brexit effeithio'n sylweddol ar y cyfnod a oedd yn arwain at SR2019, a'i natur. Gyda'r Prif Weinidog, Boris Johnson, yn benderfynol o sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, bryd hynny erbyn 31 Hydref, gyda chytundeb neu heb gytundeb, roedd SR2019 wedi'i osod yn erbyn cefndir o lawer o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd. Mae SR2019 yn anarferol, er nad yw'n unigryw (SR2013), o ran ei fod yn cwmpasu gwariant am un flwyddyn yn unig; mae adolygiadau gwariant fel arfer yn cwmpasu sawl blwyddyn. Disgwylir y bydd adolygiad cynhwysfawr o wariant yn digwydd yn 2020; ac er bod y Canghellor blaenorol wedi cyfeirio at adolygiad cynhwysfawr o wariant tair blynedd, nid yw hyd CSR2020 wedi cael ei gadarnhau.

5.4 Cyhoeddodd SR2019 gyllid ar gyfer 20,000 o swyddogion ychwanegol dros 3 blynedd, fodd bynnag ni chafwyd unrhyw fanylion am hyn mewn unrhyw ffurf, a nes i'r cyhoeddiad gael ei wneud mae'n aneglur os fydd costau chwyddiant cyfredol a chostau mewn cysylltiad â chynyddu nifer y swyddogion yn cael ei gyllido. Roedd grant ychwanegol tuag at Bensiwn Gweithwyr Swyddogion ar yr un lefel ariannol (dim cynnydd chwyddiant) wedi'i gynnwys. Unwaith y cyhoeddwyd yr Etholiad Cyffredinol, ni ddarparwyd mwy o wybodaeth. Er mwyn sicrhau bod Comisiynwyr yr Heddlu'n cynnal cyllid termau real heb unrhyw gynnydd mewn cyllid grant, yn y blynyddoedd diwethaf fe gymerodd Swyddfa Gartref gynnydd o £12 yn Nhreth y Cyngor yn 2018-19; ac er mwyn darparu'r cyfraniadau pensiwn swyddogion heddlu a'r galw cynyddol, cafodd hyn ei gynyddu i £24 yn 2019-20. Nid y Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfyngiad ar dreth y cyngor.

6. Y Broses Gynllunio

6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ynghlwm yn gosod yr amgylchedd cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf, ynghyd â rhagamcanion ar gyfer gwariant ac incwm refeniw, a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Pwrpas cyffredinol y broses gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau er mwyn alinio cynlluniau gwario gyda blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl. Nodir y blaenoriaethau isod

<u>Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd</u>

- Lleihau Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn
- Cam-drin domestig
- Trais Rhywiol
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Gyfundrefnol
- Cymdogaethau Mwy Diogel

Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw

Gwneud Gogledd Cymru y lle mwyaf diogel yn y DU; drwy atal trosedd, diogelu cymunedau ac erlid troseddwyr.

6.3 Roedd y broses cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2020-21 yn cynnwys gweithredu'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 a oedd yn cynnwys 47% o gyllidebau'r Heddlu ac adolygiad o'r meysydd yn weddill. Roedd 40% o'r cyllidebau yn destun proses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaeth (PRP) lle nododd rheolwyr y lefelau gwasanaeth amrywiol. Cafodd 13% arall y cyllidebau eu hadolygu y tu allan i'r prosesau hyn.

6.4 Yn ychwanegol at yr uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn. Wrth ddatblygu'r cyflwyniadau gan reolwyr a'r CATC, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio

6.5 Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ei ail flwyddyn. Roedd Datganiad Rheoli'r Heddlu'n dadansoddi galw yn y dyfodol yn erbyn cynhwysedd a galluogrwydd ein timoedd. Defnyddiodd broses dadansoddi data a chyfweliadau gydag arbenigwyr pwnc. Cafodd yr holl adrannau asesiad risg gan ystyried y duedd o ran galw a'r adnoddau ar gael, er mwyn eu trefnu yn ôl y

risg a'r adnoddau oedd eu hangen. Defnyddiwyd rhagolygon ystadegol er mwyn rhagweld y gofyniad am adnoddau a hysbysu cynigion PRP.

6.6 Y brif broses a ddefnyddiwyd yn ystod y cylch cynllunio 2019-20 oedd y Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP). Dyma ddull strwythuredig lle mae rheolwyr yn gosod amrywiaeth o lefelau gwasanaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i'w darparu. Roedd y broses yn cynnwys rheolwyr yn cyflwyno eu cynlluniau i Banel mewn tri cham. Roedd y Panel PRP yn cynnwyd y Dirprwy Brif Gwnstabl (Cadeirydd), y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Cefnogwyd y Panel gan y Prif Swyddog Cyllid, cynrychiolwyr o Ffederasiwn yr Heddlu ac Unsain, a'r Tîm PRP, a oedd yn gallu arsylwi'r broses, a chynnig cyngor a chymorth technegol.

6.7 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog er mwyn cadarnhau canlyniad y broses PRP. Galluogodd hyn i'r amcangyfrif o adnoddau ar gael, gael ei ddefnyddio i flaenoriaethu a hysbysu'r dyraniad o 62 Swyddog ychwanegol o Ymgyrch Uplift. Trafodwyd y canlyniad yng nghyfarfod Gosod Cyllideb blynyddol gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill, a ddaeth â chanlyniadau'r PRP, gweithredu'r RhGG, Cynlluniau Arbedion a holl elfennau eraill y CATC, ynghyd. Yn ei dro, ffurfiodd hyn y cynnig a gyflwynwyd i'r Comisiynydd a'i dîm.

6.8 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 18 Rhagfyr 2019 i drafod cynigion y gyllideb. Gan na wnaed y cyhoeddiadau cyllido ar y pryd, adolygwyd y rhagdybiaethau a chytunwyd i symud gosod y gyllideb ar gyfer 2020-21 ymlaen i'r dyddiadau statudol.

7. Dyraniadau Cyllid

7.1 Roedd setliad 2019-20 am un flwyddyn yn unig, a ni chyhoeddwyd dyraniad dangosol ar gyfer 2020-21 ar y pryd, er bod setliadau grant yn y blynyddoedd blaenorol wedi cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol. Ond oherwydd yr Etholiad Cyffredinol, deddfwriaeth Brexit a Llywodraeth newydd, ni wnaed y cyhoeddiad.

7.2 Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, a oedd newydd ei benodi, ganlyniad Cylch Gwario 2019 (SR2019) y cyfeirir ato weithiau fel yr 'Adolygiad o Wariant'. Roedd SR2019 yn nodi cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Disgwylir i'r SR2019 fod yn sail i ddyraniadau cyllido ar gyfer 2020-21. Ni roddodd yr SR2019 ddyraniadau ardal heddlu, ond cyhoeddodd gynnydd o 20,000 yn nifer y swyddogion yng Nghymru a Lloegr. Yn dilyn hynny, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael gwybod y bydd yn derbyn dyraniad o 62 yng ngham cyntaf yr ymgyrch uplift, sy'n cynnwys cynnydd o 6,000 erbyn Mawrth 2021 yng Nghymru a Lloegr. Nid oes unrhyw fanylion ariannol wedi'u cadarnhau eto. Amcangyfrifir mai cost blynyddol y 62 swyddog yn ôl prisiau 2020-21, gan gynnwys offer a hyfforddiant, yw £3.050m. Unwaith y bydd dyraniad yr 14,000 swyddog arall yn hysbys, bydd angen ailasesu cost y dyraniad ychwanegol a chostau tebygol isadeiledd. Ar gyfer dibenion y cynllun hwn, rhagdybir y bydd costau yn 2020-21 yn cael eu diwallu gan grant ychwanegol.

7.3 Mae'r Grant Pensiwn penodol (£1.5m) a ddyfarnwyd yn 2019-20, er mwyn cyfrannu tuag at gost cynyddol cyfraniadau cyflogwr Swyddogion Heddlu, yn parhau am un flwyddyn i ddechrau, ond mae disgwyl iddo ddigwydd yn rheolaidd. Nid oes unrhyw arwydd o ran y grant cyffredinol ac felly rhagdybir cyllid wastad (dim cynnydd na lleihad) fel y CATC blaenorol ac yn gyson â mwyafrif y Lluoedd eraill. Cytunwyd ar ddyfarniadau cyflog Swyddogion a Staff ar 2.5% ym mis Medi 2019; roedd hyn yn uwch na'r cynnydd tybiedig o 2%. Disgwylir cynnydd o 2.5% ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

7.4 Disgwylir i adolygiad o wariant 3 blynedd gael ei gyflawni dros yr haf i baratoi ar gyfer setliadau 2021-22.

7.5 Mae'r swm sydd ar gael i blismona'n parhau i gael ei frigdorri, gyda chynnydd arall o £84 miliwn yn 2019-20. Mae'r swm a frigdorrir yn gostwng y grant craidd a dderbynia Gogledd Cymru o £10.6 miliwn, gyda chyfran fechan yn unig o hwnnw'n cael ei dderbyn fel cyllid ychwanegol neu fudd uniongyrchol.

7.6 Mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn y dyfodol. Ymddengys bod y Swyddfa Gartref yn derbyn bod cyllid yr Heddlu wedi'i gwtogi gymaint â phosib', ond mae ansicrwydd economaidd ynghlwm â Brexit yn ei gwneud yn anodd darogan faint o adnoddau fydd ar gael. Y farn yw rhagweld lefel cyllido wastad o 2021-22 ymlaen.

8. Cyllideb 2020/21 i 2024/25

8.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2020-25 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad A.

8.2 Dyma'r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflog blynyddol o 2.5% o fis Medi (wedi cynyddu o 2%)
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo'n hysbys
- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.5% yn 2020-21 (£12.51) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 4.13% yn 2021-22, 3.97% yn 2022-23, 3.81% yn 2023-24 a 3.67% yn 2024-25.
- Cynnydd mewn grant o 0% yn 2020-21, a setliad wastad o 0% ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2021-22 ymlaen

Mae hyn yn rhoi'r sefyllfa:

	Cyllideb Flynyddol 2020-21	Cyllideb Flynyddol 2021-22	Cyllideb Flynyddol 2022-23	Cyllideb Flynyddol 2023-24	Cyllideb Flynyddol 2024-25
Llinell Sylfaen	154,264	158,224	161,955	165,706	169,471
Chwyddiant	3,960	4,662	4,559	4,802	4,621
Twf TG a PEQF	0	1,156	213	24	0
Arbedion	0	-126	0	0	0
Gofyniad Cyllidebol	**158,224**	**163,916**	**166,727**	**170,532**	**174,092**
Cyfanswm grant	-73,234	-73,234	-73,234	-73,234	-73,234
Praesept o Dreth y Cyngor	-84,990	-88,721	-92,472	-96,237	-100,022
Cyfanswm	**-158,224**	**-161,955**	**-165,706**	**-169,471**	**-173,256**
Balans Blynyddol	**0**	**1,961**	**1,021**	**1,061**	**836**
Balans cronnus	0	1,961	2,982	4,042	4,878
% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor	4.50%	4.13%	3.97%	3.81%	3.67%
Cynnydd mewn £	12.51	12.00	12.00	12.00	12.00

8.3 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau uchod, bydd angen gwneud arbedion o £4.878m o 2021-22 i 2024-25 er mwyn cydbwyso'r gyllideb. Fodd bynnag, mae lefel uchel iawn o ansicrwydd o ran cyllid gan y Llywodraeth, oherwydd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oes unrhyw gyhoeddiad wedi cael ei wneud. Unwaith i'r cyhoeddiadau gael eu gwneud, bydd angen adolygu a diwygio'r Cynllun gyda'r ffigyrau terfynol. Mae cyfanswm chwyddiant ar gyfer cyflog ac adnoddau nad ydynt yn staff yn gyfystyr â 2.57% ar gyfer 2020-21; mae hyn yn gyfystyr a chynnydd o £13.54 / 4.7% yn Nhreth y Cyngor ar ei ben ei hun. Disgwylir i'r grantiau gynyddu yn unol â chwyddiant, fodd bynnag nid yw hyn wedi digwydd dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Er mwyn ymateb, pe byddai grant yn cynyddu 1% (a fyddai dal yn golygu toriad mewn termau real) dros gyfnod y CATC, byddai'r sefyllfa gyffredinol yn lleihau'r arbedion angenrheidiol i £1.144m. O bosib, byddai hyn yn creu arian dros ben yn 2020-21, fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei osod yn erbyn costau swyddogion ymgyrch uplift a fydd angen ei gyllido yn 2020-21.

8.4 Mae'r gyllideb wedi bod yn gytbwys ac mae ail-fuddsoddi wedi digwydd oherwydd yr arbedion a nodwyd yn y RhGG, PRP a'r broses adolygu'r gyllideb. Dyma grynodeb o'r arbedion isod:

Arbedion	**20-21**
	£k
Rhaglen Gwelliant Gweithredol	1,376
Ystadau	50
Caffael	80
Cyllidebau Arian At Raid	60
Cynllunio Blaenoriaethu Adnoddau	
Newidiadau Cyfaint/Dull	278
Lleihad Lefel Gwasanaeth	514
Cyfanswm	**2,358**

8.5 Nododd y CATC y llynedd faes o risg yn y dyfodol wrth weithredu Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu (PEQF). Bwriad y fframwaith yw sicrhau bod gan holl swyddogion yr heddlu gymhwyster lefel 6 ar ddiwedd eu hyfforddiant. O ran costau, bydd cost ychwanegol ffioedd dysgu a hyfforddwyr mewnol ychwanegol a bydd gweithwyr yn methu diwrnodau o waith yn ystod y flwyddyn gyntaf ac yn ystod yr ail a'r drydedd flwyddyn newydd o hyfforddiant. Mae tair ffordd o gwblhau'r PEQF: gall unigolyn graddedig gyda gradd nad yw'n berthnasol, gwblhau cwrs ôl-radd dwy flynedd; gall y rhai sy'n dechrau heb radd, gwblhau cwrs tair blynedd sy'n arwain at gael gradd; cyflawnir y ddau opsiwn fel Swyddogion Heddlu cyflogedig. Y trydydd opsiwn yw cwblhau gradd mewn Plismona mewn sefydliad addysgol cyn dod yn Swyddog Heddlu Cyflogedig; bydd yr ymgeiswyr hyn ond yn cwblhau hyfforddiant ymarferol yn unig, oherwydd y bydd y gofyniad addysgol wedi'i gyflawni eisoes. Mae costau a chyfraddau tynnu pobl o'r gwaith wedi'u cynnwys yn y CATC yn seiliedig ar gyfraddau recriwtio cyfredol ac amcangyfrif o'r bobl a fydd yn cael eu tynnu o'r gwaith yn ychwanegol gyda Swyddogion ychwanegol yn eu lle. Ariennir y costau hyn drwy gyfuniad o gyllideb ychwanegol a dyraniad swyddogion ymgyrch uplift.

8.6 Mae'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol yn nesáu at gael ei chwblhau wedi'i hariannu'n bennaf o gronfeydd wrth gefn. Mae strategaethau Ystadau, TG a Fflyd y dyfodol yn cael eu paratoi i adlewyrchu'r gofynion cyfredol ac effeithiau Ymgyrch Uplift, gan arwain at ofynion buddsoddi newydd. Nid yw'r Grantiau Cyfalaf yn ddigon i ariannu 1/3 o'r Rhaglen Amnewid Cerbydau flynyddol; ni ellir ond defnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith. Mae swm blynyddol o £0.4m wedi cael ei gynnwys yn amcangyfrifon 2020-21 er mwyn cyllido buddsoddiad cyfalaf. Bydd penderfyniadau terfynol ar hyn yn seiliedig ar achosion busnes ond mae'n ddarbodus cynnwys swm yn yr amcangyfrifon gan nad oes unrhyw ffynhonnell newydd arall o gyllid cyfalaf.

8.7 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a'r arbedion a nodwyd, bydd cyfanswm o £2.358m yn cael ei ail-fuddsoddi yn 2020-21. Mae crynodeb o hyn isod gan gynnwys ail-fuddsoddiad o £0.278m newidiadau dull (arbedion effeithlonrwydd) a nodwyd yn y broses PRP. Yn ogystal â hyn, cafodd y 62 o swyddogion ychwanegol (Ymgyrch Uplift) eu dyrannu fel rhan o'r broses PRP. Dyma fanylion y twf isod:

Twf	**20-21**
	£k
Costau Hyfforddiant PEQF	160
Cyllid Cyfalaf	400
Cynllunio Blaenoriaethu Adnoddau	
Prif Gwnstabl – Staff a'r rhai nad ydynt yn staff	1,642
Comisiynydd Heddlu – Staff a rhai nad ydynt yn staff	156
Cyfanswm	**2,358**

8.8 **Dyraniad 62 Swyddog Ymgyrch Uplift**

Gwasanaethau Trosedd – 34 swyddog

- Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn – Lleol a Strategol – 19 swyddog

Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar unigolion diamddiffyn wedi bod yn faes gyda galw cynyddol yn y blynyddoedd diwethaf, o ran y nifer i ddigwyddiadau a throsedd ar-lein. Mae ymchwiliadau'n cymryd amser ac adnoddau, a rhaid monitro troseddwyr blaenorol wedi hynny. Amlygodd y broses PRP yr angen am adnoddau ychwanegol yn yr Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn er mwyn delio â'r cynnydd mewn llwyth gwaith. Mae'r swyddogion wedi'u neilltuo i: Dimoedd Lleol 10; Y Tîm Amethyst Corfforaethol (Ymchwilio i Ymosodiadau Rhywiol) 8: a'r Tîm Ymchwilio i Bedoffiliaid ar-lein 1.

- Yr Uned Trosedd Economaidd – 5 swyddog

Dyma faes arall gyda galw cynyddol a amlygwyd yn ystod y broses PRP. Mae hyn yn cynnwys Ditectif Arolygydd i arwain yr Uned yn strategol, ac adnoddau ymchwilio ychwanegol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cymorth ychwanegol i'r Tîm Troseddau Difrifol a Threfnedig

- Tîm Troseddau Mawr – 10 swyddog

Mae canfod a chwalu Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn cymryd amser ac adnoddau ac mae'r Heddlu wedi bod yn llwyddiannus

wrth erlid a chwalu Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol o fewn a thu allan i ardal yr Heddlu. Bydd adnoddau ychwanegol yn gwella'r gwaith a gyflawnir gan y timoedd.

Plismona Lleol – 23 swyddog

- Ymateb 16 swyddog

Bydd dyraniad o 16 swyddog rheng flaen i'r Timoedd Ymateb yn cryfhau'r timoedd, a fydd yn galluogi swyddogion ychwanegol i wneud gwaith llanw dros gyfnodau o absenoldebau oherwydd hyfforddiant gyda gweithrediad Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEQF). Bydd y PEQF yn rhoi graff i recriwtiaid newydd ar ddiwedd eu hyfforddiant, ond nid yw hyn yn golygu y bydd gweithwyr yn methu diwrnodau o waith yn eu hail a'u trydedd blwyddyn fel Swyddogion.

- Diogelwch Cymunedol 5 swyddog

Mae'r rhain yn cynnwys 3 swyddog ychwanegol yn y Tîm Trosedd Gwledig ac Arolygydd i weithio gyda sefydliadau partner a swyddog ychwanegol ar gyfer yr Uned Rheoli Troseddwyr Integredig.

- Aseswyr 2 swyddog

Mae angen Swyddogion Asesu Prawf ychwanegol i ddelio â'r cynnydd mewn recriwtio swyddogion.

Eraill – 5 swyddog

- Gan gynnwys Cynrychiolaeth Gweithlu, Iechyd a Lles, Uned Gwrth-Lygredigaeth (PSD), Swyddfa Rheoli'r Rhaglen , NPCC.
  Dyma feysydd eraill a nodwyd yn y blaenoriaethau, Datganiad Rheoli'r Heddlu a'r broses PRP.

8.9 **Newidiadau staff o PRP – gwelliannau a newidiadau mewn niferoedd a dulliau – 22.62 swydd**

Gwasanaethau Trosedd – 6.3 CLlA

- Gwybodaeth – Pecynnau Arfau a Llinellau Sirol
- Uned Atgyfeirio Ganolog

Mae'r rhain yn swyddi dadansoddi i gefnogi'r swyddogion ychwanegol yn y Gwasanaethau Trosedd ac i wasanaethau'r galw cynyddol i reoli gwybodaeth.

Gwasanaethau Cymorth Gweithredol – 3 CLlA

- Trwyddedu Drylliau Tanio

  Mae'r nifer sy'n adnewyddu trwyddedau yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, o ganlyniad i'r cylch adnewyddu, sy'n creu galw mawr am ddwy flynedd ymhob cyfnod o bum mlynedd.

Gwasanaethau Corfforaethol – 10.32 CLlA

- Hyfforddiant – Academi Trosedd (niferoedd cynyddol o dditectifs), TGCh, Hyfforddiant Gyrru, cynyddu'r defnydd tasers
- Iechyd a Lles
- Ailstrwythuro AD ac SSF

  Amlygwyd iechyd a lles swyddogion a staff fel maes sydd angen buddsoddiad o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu; mae Ymgyrch Uplift a mentrau eraill, megis cynnydd mewn Tasers wedi arwain at fwy o alw. Mae cyfran uchel o rolau Swyddogion newydd yn dditectifs, yn unol â phatrwm y blynyddoedd diwethaf, mae hyn yn golygu cynnydd yn y nifer o dditectifs newydd sy'n cael eu hyfforddi.

Cyllid ac Adnoddau – 2 CLlA

- Swyddogion Cefnogi Busnes

  Mae'r rhain yn swyddogaethau hanfodol er mwyn sicrhau bod y lefel o newid sy'n digwydd yn cael ei reoli a bod gwaith dydd i ddydd yn cael ei gyflawni'n effeithlon.

- **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd – 1 CLlA**

  1 Swyddog Polisi a Chraffu ychwanegol i adlewyrchu'r lefel o ddatblygiad a newid sy'n digwydd ar hyn o bryd.

8.10 **Nodir y newidiadau nad ydynt yn ymwneud â staff isod**

Technoleg Gwybodaeth £0.745m – Mae datblygiadau sylweddol o fewn TG, gan gynnwys Rhaglen Galluogi Cenedlaethol, Fideo a Wisgir ar y Corff a chyflwyno dyfeisiau 2 mewn 1 personol. Golyga hyn y bydd gan swyddogion y rheng flaen fynediad at dechnoleg a meddalwedd gwell ar unrhyw adeg.

Ffioedd dysgu PEQF £0.160m fel y nodwyd yn y CATC blaenorol.

Cyllid Cyfalaf – cynnydd blynyddol o £0.400m (wedi'i gynnwys fel eitem untro yn y CATC blaenorol) mae angen hwn gan fod y grant cyfalaf gan y llywodraeth yn isel, ac mae'r cronfeydd wrth gefn yn gwagu.

Cyflenwadau a Gwasanaethau eraill £0.103m yn y Brif Gronfa Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar (£0.100m) a oedd dros dro yn 2019-20.

8.11 Yn ogystal â hynny, bydd twf dros dro wedi'i ariannu o'r gronfa wrth gefn Rheoli a Newid, er mwyn galluogi prosiectau a datblygiadau i'w gweithredu yn ôl yr isod

OSS – 15 swydd

- Cartrefi Ar-lein Unigol (Desg Ddigidol)
- Uwchraddio Gorchymyn a Rheoli

Gwasanaethau Trosedd – 2 swydd

- Prosiect ANPR
- Swyddog Gwybodaeth ar gyfer Ymholiadau Gwybodaeth yn destun canlyniad Brexit

Datblygu Sefydliadol a Phobl – 6.4 CLlA

- Uned Systemau Busnes
- Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu
- Trawsnewid Digidol

8.12 Mae'r ail-fuddsoddiad o £2.358m, ynghyd â'r 62 swyddog uplift ychwanegol, yn galluogi buddsoddiad sylweddol, ond mae hyn yn ei dro, yn rhoi pwysau ar gyllidebau eraill i gefnogi'r buddsoddiad hwn. Aethpwyd i'r afael â hyn i ryw raddau, ond nes i'r ffigyrau cyllido ar gyfer swyddogion uplift a grant ar gyfer 2020-21 gael eu cyhoeddi, nid yw'n eglur os fydd unrhyw fylchau eraill.

9.0 Risgiau

9.1 Mae manylion y risgiau i'r gyllideb yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y CATC. Ceir crynodeb o'r prif risgiau isod; mae rhai o'r rhain eisoes wedi'u hamlygu yn yr adroddiad:

- Ansicrwydd ariannol, yn cynnwys adolygiad o wariant, fformiwla ariannu, brigdoriant, a manylion yn cael eu darparu'n hwyr yn ystod y cylch cynllunio
- Newidiadau yn y dyfodol i'r fformiwla ariannu a all fod yn niweidiol i ogledd Cymru; dileu'r grant gwaelodol
- Gofynion cenedlaethol a lleol sy'n codi – megis Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu ac amnewid system gyfathrebu newydd yr Heddlu a datblygiadau TG
- Newid yn y galw am blismona

- Darparu cynlluniau arbedion presennol
- Llunio cynlluniau arbedion i'r dyfodol
- Y sefyllfa economaidd genedlaethol yn gwaethygu, ac yn arwain at ragor o doriadau (gan gynnwys effaith Brexit)
- Cynnydd mewn costau cyflog (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant cenedlaethol) – mae cyflog yn cyfrif am tua 80% o'r gyllideb net.

10. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

10.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, megis digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i reoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Mae'r rhain wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

10.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

10.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £23.643 miliwn i £15.665 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf. Bwriedir buddsoddi yn defnyddio'r gronfa rheoli i wneud y newidiadau angenrheidiol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd y defnydd cynlluniedig o gronfa wrth gefn Cynllun Ariannu Preifat yn dechrau yn 2020-21, mae'r gronfa wrth gefn wedi cael ei ail osod yn dilyn lleihad yng nghost y contract Cynllun Ariannu Preifat. Cynlluniwyd ar gyfer trosglwyddo £1.2m o gronfa wrth gefn y Cynllun Ariannu Preifat i Gronfa wrth Gefn Cynnal a Chadw Ystadau ar ddiwedd 2019-2020. Mae'r rhagamcan o ddefnydd Cronfa wrth Gefn Cynnal a Chadw Ystadau wedi'i gynnwys yn y rhagamcaniad. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn ym mharagraff 9.6 y CATC.

10.4 Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r sefyllfa refeniw derfynol yn 2019-20, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r gronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn digwyddiadau mawr) ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl. Cyhoeddodd y Gweinidog Plismona ganllawiau newydd ar dryloywder y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2018-20, mae'r CATC yn categoreiddio'r cronfeydd wrth gefn yn unol â'r canllawiau ym mharagraff 9.5 ac mae disgrifiad llawn o bob cronfa wrth gefn ym mharagraff 9.6.

10.5 Mae'r cronfeydd wrth gefn yn agosáu at ran isaf yr ystod sy'n dderbyniol, gan ystyried y risgiau ariannol sydd wedi eu trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn o'r cyllidebau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd unrhyw wariant sylweddol sydd heb ei gynllunio yn golygu y bydd angen ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau yn y dyfodol.

Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn

Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	31.3.19 Balans £m	31.3.20 Balans £m	31.3.21 Balans £m	31.3.22 Balans £m	31.3.23 Balans £m	31.3.24 Balans £m	31.3.25 Balans £m
Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	0.009	1.960	2.505	2.128	2.178	1.258	1.158
Balans y Gronfa Gyffredinol	4.392	5.189	5.189	5.189	5.189	5.189	5.189
Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	19.251	14.374	11.861	11.373	10.768	10.043	9.318
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio	**23.652**	**21.523**	**19.555**	**18.690**	**18.135**	**16.490**	**15.665**

Cronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi'i Chlustnodi

Disgrifiad	**31.3.19 £m**	**31.3.20 £m**	**31.3.21 £m**	**31.3.22 £m**	**31.3.23 £m**	**31.3.24 £m**	**31.3.25 £m**
Buddsoddiad Cyfalaf	2.059	1.243	0.633	0.633	0.633	0.633	0.633
Digwyddiad mawr	2.435	2.310	2.310	2.310	2.310	2.310	2.310
Cronfa Bensiwn Salwch wrth Gefn	0.915	0.915	0.915	0.915	0.915	0.915	0.915
Cronfa Wrth Gefn Yswiriant	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173	1.173
Cronfa Wrth Gefn PFI	4.333	3.177	3.106	2.918	2.613	2.188	1.763
Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau	1.033	1.816	1.516	1.216	0.916	0.616	0.316
Rheoli Newid	5.950	2.387	0.855	0.855	0.855	0.855	0.855
Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau	0.654	0.654	0.654	0.654	0.654	0.654	0.654

Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd	0.500	0.500	0.500	0.500	0.500	0.500	0.500
Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd	0.056	0.056	0.056	0.056	0.056	0.056	0.056
Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd	0.143	0.143	0.143	0.143	0.143	0.143	0.143
Cyfanswm	**19.251**	**14.374**	**11.861**	**11.373**	**10.768**	**10.043**	**9.318**

11. Cyfalaf

11.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf sydd mewn grym ers 2013-14 wedi dod i ben. Erbyn diwedd 2019-20 bydd y canlynol wedi'i gyflawni:

- 4 cyfleuster mawr newydd yn Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad)
- 20 cyfleuster wedi'i adnewyddu ac adleoliadau
- Parhau â'r Rhaglen Amnewid Cerbydau
- Uwchraddio rhwydweithiau, gweinyddwyr, byrddau gwaith, dyfeisiau symudol a newid systemau technoleg yr Ystafell Reoli.

11.2 Mae angen buddsoddiad parhaus mewn asedau ac isadeiledd y Comisiynydd er mwyn sicrhau arferion gwaith effeithlon a modern. Datblygwyd strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a Fflyd y llynedd, a chytunwyd at Raglen Gyfalaf newydd. Fodd bynnag, ers i'r Rhaglen gael ei baratoi, cyhoeddwyd y cynnydd yn niferoedd y swyddogion. Mae'r cwota cychwynnol ar gyfer 62 swyddog ychwanegol, ond gall hyn gynyddu i oddeutu 200, a staff cymorth. Golyga hyn bod angen adolygu'r rhaglen Ystadau unwaith fydd y gofynion llawn yn hysbys.

11.3 Disgwylir i'r gwaith adnewyddu ym Mhwllheli ddechrau yn y flwyddyn ariannol hon a gorffen y flwyddyn nesaf. Disgwylir adleoli Gweithdy Cerbydau'r Heddlu (rhentu ar hyn o bryd) ddechrau'r flwyddyn nesaf, yn amodol ar Achos Busnes Terfynol. Mae gwaith eraill yng ngyfadeilad y pencadlys a'r safle arfau wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21.

11.4 Mae angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer isadeiledd TG. Mae hwn yn cael ei gyfarwyddo gan y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd cyflwyno dyfeisiau rhyngrwyd personol ar gyfer swyddogion a staff gweithredol yn galluogi gweithio hyblyg, a bydd yr holl ddyfeisiau'n gallu defnyddio'r Rhaglen Galluogi Cenedlaethol o ran y feddalwedd ddiweddaraf ar gael. Mae achosion busnes amlinellol wedi cael eu darparu ym mhob maes, mae achosion a buddion busnes manwl yn cael eu datblygu. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys newid y cyfarpar fideo a wisgir ar y corff. Mae buddsoddiad ychwanegol o £4.056m wedi amcangyfrif ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2024-25, fel y manylir isod:

Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25	Cynnydd
Prosiect	£'m
2 mewn 1, Gliniaduron a byrddau gwaith	2,841
Loceri ar gyfer gwefru a storio	200

Ap symudol / Life X	471
Isadeiledd NEP/Sail Point/ Cysylltiadau Rhyngrwyd	208
Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol	211
Rheoli Tystiolaeth Ddigidol	125
Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth, a Chyfathrebu	4,056

11.5 Mae'r rhaglen yn fforddiadwy ac wedi'i hariannu yn defnyddio grantiau, cronfeydd wrth gefn, refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o'r symiau a ariennir yn llawn ym mlwyddyn y pryniant drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog ac ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd i ddilyn.

11.6 Mae rhagor o fanylion ar gael yn y CATC; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiynydd fel rhan o'r Strategaeth Cyfalaf sy'n cynnwys Strategaethau Cod Darbodus a Rheoli'r Trysorlys. Unwaith fydd goblygiadau llawn yr ymgyrch uplift yn hysbys, gan gynnwys dyraniad y swyddogion ychwanegol yn 2011-22 a 2022-23, bydd angen adolygu'r Rhaglen Gyfalaf.

11.7 Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25

Cyf	Disgrifiad	2019-20 Cyllideb Ddiwygiedig £000	2020-21 Amcan £000	2021-22 Amcan £000	2022-23 Amcan £000	2023-24 Amcan £000	2024-25 Amcan £000
	Cyfanswm Gwaith Adeiladu	1,371	4,529	3,995	3,479	3,891	1,433
	Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill	2,342	1,800	1,300	1,855	1,300	1,300
	Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth, a Chyfathrebu	5,463	3,146	2,145	750	1,880	750
	Cyfanswm	**9,176**	**9,475**	**7,440**	**6,084**	**7,071**	**3,483**
	Cyllid						
46	Grant y Swyddfa Gartref	462	462	462	462	462	462
47	Cyfraniad Refeniw	2,269	1,643	1,516	1,238	1,238	1,238
48	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	3,536	1,608	0	0	0	0
49	Derbyniadau Cyfalaf	475	155	377	100	1,420	475
50	Benthyca ar gyfer Ystadau	774	4,141	3,895	3,379	3,141	958
51	Benthyca ar gyfer Rhaglen Newid Offer	1,660	1,466	1,190	905	810	350
	Cyfanswm Cyllid	**9,176**	**9,475**	**7,440**	**6,084**	**7,071**	**3,483**
52	Ffynonellau allanol	462	462	462	462	462	462

53	Adnoddau eu hunain	6,280	3,406	1,893	1,338	2,658	1,713
54	Dyled	2,434	5,607	5,085	4,284	3,951	1,308
	CYFANSWM	**9,176**	**9,475**	**7,440**	**6,084**	**7,071**	**3,483**

12. Ystyried y Dewisiadau

12.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y broses PRP er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau yn unol â blaenoriaethau o fewn y sefydliad. Gwnaeth y broses PRP hefyd alluogi dyrannu 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Mae chwyddiant cyflog wedi cynyddu wrth i'r Llywodraeth lacio cyfyngiadau cyflog y sector cyhoeddus. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.7% er mwyn talu costau chwyddiant yn seiliedig ar y setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol ar gael wrth i swyddogion ychwanegol gael eu cyhoeddi; fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd cost lawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn cael ei hariannu. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £12.51 (4.5%) yn nhreth y cyngor. Hwn yw'r cynnydd treth y cyngor / praesept gofalus isaf, o ystyried nad yw cyllid cyffredinol, cyllid ymgyrch uplift cam 1 na dyraniad cam 2 ymgyrch uplift wedi'u cyhoeddi.

12.2 Cynhaliodd y Comisiynydd drafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl a gadarnhaodd bod codi Treth y Cyngor 4.5% yn darparu cyllideb ddigonol i weithredu'r gwasanaeth plismona yn 2020/21. Mae hyn yn dibynnu ar dderbyn cyllid ddigonol gan y Llywodraeth i weithredu'r cynnydd yn niferoedd y swyddogion. Hefyd, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y dyraniad grant yn y dyfodol, dyfarniadau cyflog a newidiadau yn y pwysau gweithredol, nid yw'n bosib gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio, a rhaid deall y byddai gostyngiad sylweddol yn y dyraniad grant neu gynnydd uwch na'r disgwyl yn y dyfarniad cyflog yn arwain at doriadau pellach a chynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol.

12.3 Wrth gynyddu Treth y Cyngor 4.50% y swm ar gyfer bob band eiddo yw:

Band Treth	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Treth y Cyngor	193.74	226.03	258.32	290.61	355.19	419.77	484.35	581.22	678.09

12.4 Praesept pob ardal filio fydd:

Awdurdod Bilio	2020-21 Sylfaen Drethu	Praesept £
Cyngor Sir Ynys Môn	31,532.53	**9,163,669**
Cyngor Gwynedd	51,917.91	**15,087,864**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	50,701.04	**14,734,229**

Cyngor Sir Ddinbych	40,273.66	**11,703,928**
Cyngor Sir y Fflint	64,554.00	**18,760,038**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	53,475.03	**15,540,378**
	292,454.17	**84,990,106**

13. Goblygiadau

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer y gweithwyr yn yr Heddlu yn y dyfodol.
Ariannol	Diben yr adroddiad hwn yw argymell Praesept a Threth y Cyngor 2020/21, ac egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hirdymor a thymor canolig wrth wneud penderfyniadau. Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu Cynllun yr Heddlu a Throsedd a chyflawni ein gofynion cyfreithiol.
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn darparu gwybodaeth ddigonol i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Risg	Mae'r adroddiad hwn yn nodi ac yn gwerthuso'r risgiau yn sgil yr argymhellion.
Heddlu a Throsedd	Nid oes goblygiadau ar wahân i'r heddlu a throsedd.

Atodiad A

Cyf Disgrifiad

Cyllideb 2019/20 i 2024/25

	Gwariant	Cyllideb Flynyddol 2019-20 £000	+'Cyn -'Llei (cyllideb net) 2020-21 £000	Cyllideb Flynyddol 2020-21 £000	Cyllideb Flynyddol 2021-22 £000	Cyllideb Flynyddol 2022-23 £000	Cyllideb Flynyddol 2023-24 £000	Cyllideb Flynyddol 2024-25 £000
1.1	Cyflog Swyddogion Heddlu	80,352	1,994	82,346	84,980	87,471	90,154	92,542
2.1	Cyflog Staff yr Heddlu	39,488	670	40,158	41,196	42,262	43,354	44,473
2.2	PCSO's	6,586	131	6,717	6,852	6,989	7,128	7,271
3	Goramser Swyddogion Heddlu	2,114	93	2,207	2,262	2,319	2,377	2,436
4	Goramser Staff yr Heddlu	602	15	617	633	648	665	681
5	Lwfansau	1,365	-24	1,341	1,337	1,333	1,330	1,328
6	Hyfforddiant	724	209	933	952	971	990	1,010
7	Gweithwyr Eraill	559	12	571	582	594	605	618
8	Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,305	79	3,384	3,465	3,548	3,634	3,721
9	Costau Ynni	1,420	0	1,420	1,463	1,506	1,552	1,598
10	Costau Rhedeg Adeiladau	6,409	91	6,500	6,630	6,763	6,898	7,036
11	Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	535	10	545	556	567	579	590
12	Costau Rhedeg Cerbydau	1,876	48	1,924	1,973	2,024	2,076	2,130
13	Lwfansau Car a Theithio	716	14	730	745	760	775	791
14	Uned Awyr	589	15	604	619	635	651	667
15	Offer	1,009	20	1,029	1,050	1,071	1,092	1,113
16	Dillad a Gwisgoedd	467	10	477	486	496	506	516
17	Argraffu a Nwyddau Swyddfa	359	7	366	373	381	389	396
18	TG a Chyfathrebu	10,744	959	11,703	11,938	12,176	12,420	12,668
19	Cynhaliaeth	282	6	288	294	300	306	312
20	Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	2,572	-51	2,521	2,555	2,589	2,625	2,660
21	Cydweithio a Phartneriaethau	5,552	161	5,713	5,856	6,002	6,152	6,306
22	Fforensig	740	14	754	769	785	801	817
23	Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf	2,607	-175	2,432	2,440	2,440	2,440	2,440
24	Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig	400	0	400	400	400	400	400
25	Chwyddiant ac Arian at Raid	460	-60	400	400	400	400	400
26	Cronfa Diogelwch Cymunedol	1,567	-1	1,566	1,566	1,566	1,566	1,566

	Gwariant Gros	**173,399**	**4,247**	**177,646**	**182,372**	**186,996**	**191,865**	**196,486**
		Cyllideb Flynyddol	**+'Cyn -' Llei (cyllideb net)**	**Cyllideb Flynyddol**	**Cyllideb Flynyddol**	**Cyllideb Flynyddol**	**Cyllideb Flynyddol**	**Cyllideb Flynyddol**
		2019-20	**2020-21**	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**
	Incwm	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**	**£000**
27	**Secondiadau**	-6,017	-106	-6,123	-6,123	-6,123	-6,123	-6,123
28	**Llog ar Falansau**	-100	0	-100	-100	-100	-100	-100
29	**Incwm**	-2,280	-85	-2,365	-2,365	-2,365	-2,365	-2,365
30	**Grantiau Penodol**	-10,782	19	-10,763	-10,710	-10,657	-10,605	-10,605
	Cyfanswm Incwm	**-19,179**	**-172**	**-19,351**	**-19,298**	**-19,245**	**-19,193**	**-19,193**
31	**Cronfa Wrth Gefn PFI**	44	-115	-71	-188	-306	-425	-425
32	**Cronfa Wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder**	0	0	0	0	0	0	0
33	**Ychwanegol o'r Cronfeydd wrth Gefn**	0	0	0	0	0	0	0
	Gwariant Net	**154,264**	**3,960**	**158,224**	**162,886**	**167,445**	**172,247**	**176,868**
34	Cyfanswm Grantiau	-73,234	0	-73,234	-73,234	-73,234	-73,234	-73,234
35	Praesept	-81,030	-3,960	-84,990	-88,721	-92,472	-96,237	-100,022
	Cyllid	**-154,264**	**-3,960**	**-158,224**	**-161,955**	**-165,706**	**-169,471**	**-173,256**
	Balans Blynyddol	0	0	0	931	808	1,037	836
	ACHOS SYLFAENOL - Cronnus	**0**		**0**	**931**	**1,739**	**2,776**	**3,611**
	Twf ac Arbedion Eraill (TG a PEQF)				1,030	213	24	0
	Balans Blynyddol				1,961	1,021	1,061	836
	Balans cronnus				1,961	2,982	4,043	4,878
	Ymgyrch Uplift Cam 1							
	Gwariant			3,050	3,127	3,205	3,285	3,367
	Grant Rhagdybiedig			-3,050	-3,127	-3,205	-3,285	-3,367